Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adolygiad o dystiolaeth o'r rolau a chyfrifoldebau diogelu gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl hŷn sy'n profi Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

## Crynodeb

Dyma gyfle cyffrous i wneud lleoliad gwaith ar brosiect ar ran Llywodraeth Cymru. Ffocws y prosiect yw adolygiad tystiolaeth o'r ddeddfwriaeth statudol a'r canllawiau perthnasol yng Nghymru a'r DU sy'n ymwneud â rolau a chyfrifoldebau diogelu, gofal a chefnogaeth gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl hŷn. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar atal a chefnogaeth i bobl hŷn sy'n profi Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i ymchwilio i amrywiaeth o ganlyniadau ymchwil a'u datblygu, a chefnogi Llywodraeth Cymru yn ei phroses ymchwil. Bydd yr ymgeisydd yn cael y cyfle i ddefnyddio sgiliau ymchwil mewn amgylchedd polisi, i ddatblygu mwy ar ei sgiliau cyffredinol a chyfoethogi ei wybodaeth am ymchwil y tu hwnt i faes academaidd.

## Y Sefydliad

Llywodraeth Cymru yw'r Llywodraeth ddatganoledig ar gyfer Cymru sy'n gyfrifol am yr economi, addysg, iechyd a'r GIG yng Nghymru, busnes, gwasanaethau cyhoeddus ac amgylchedd Cymru.

Yn benodol, bydd yr interniaeth wedi'i lleoli o fewn yr Uned Cymunedau, Cyfiawnder Cymdeithasol a Thystiolaeth Blynyddoedd Cynnar, sy'n rhan o wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol (KAS) sydd wedi'u lleoli yn y gyfarwyddiaeth Cymunedau a Chyfiawnder Cymdeithasol. Mae KAS yn casglu, dadansoddi a chyflwyno ymchwil a data ar gyfer llunwyr polisïau a'r cyhoedd yn unol â safonau proffesiynol. Maent yn cynnig tystiolaeth annibynnol i ddeall, datblygu, gweithredu, monitro a gwerthuso polisïau'r llywodraeth. Mae KAS hefyd yn cefnogi cydweithwyr polisi i ddatblygu, gweithredu a chyflawni polisïau.

## Yr interniaeth

Bydd yr interniaeth yn gyfle cyffrous i gynnal ymchwil i lywio dylunio a gweithredu polisïau ar draws Llywodraeth Cymru. Mae'r maes ymchwil yn drawsbynciol ond bydd yn cynnwys gwaith o fudd ym maes polisi VAWDASV yn benodol, gan gefnogi datblygu polisi wrth gyflawni cynllun gweithredu Glasbrint VAWDASV a'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Atal Cam-drin Pobl Hŷn. Bydd yr intern yn gweithio'n agos gyda swyddogion polisi ac ymchwilwyr a bydd cyfle iddynt roi eu sgiliau ymchwil ar waith mewn amgylchedd polisi, i ddatblygu mwy ar eu sgiliau cyffredinol (megis ysgrifennu adroddiadau a gwneud cyflwyniadau) a chyfoethogi eu gwybodaeth am bolisi.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn elwa ar gyfleoedd datblygu a gynigir yn ganolog gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys mentora, cysgodi, cymorth gan gymheiriaid a hyfforddiant. Bydd interniaid yn elwa ar y profiad o gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru:

- Ennill gwell dealltwriaeth o'r byd y tu allan i'r byd academaidd a chynyddu cyflogadwyedd, gan ddefnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau i gyfrannu at waith Llywodraeth Cymru.

- Gall cydweithwyr yr intern yn Llywodraeth Cymru gynnig cipolwg ar brosiect PhD yr intern a all gyfrannu at lwyddiant eu traethawd hir, yn ogystal â chyfleoedd rhwydweithio o fewn yr arena polisi sy'n gysylltiedig â'u maes ymchwil
- Sgiliau a gwybodaeth drosglwyddadwy
- Sgiliau rheoli amser
- Sgiliau ysgrifennu adroddiadau

## Y Prosiect

### Adolygiad o dystiolaeth o'r rolau a chyfrifoldebau diogelu gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl hŷn sy'n profi Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

*Cefndir*

Mae atal, amddiffyn a chefnogi pobl hŷn rhag cam-drin yn gofyn am ddull systemau cyfan ledled Cymru ar draws amrywiaeth o sectorau. Mae sicrhau bod eglurder a chydlyniant i weithwyr proffesiynol yn eu rolau a'u cyfrifoldebau yn cefnogi'r gweithlu i ddiogelu pobl hŷn (dros 60 oed) rhag cam-driniaeth ac i ddarparu cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Mae hyn yn cynnwys pob math o drais a gydnabyddir o dan VAWDASV. Gwyddom fod pobl hŷn yn cynrychioli cyfran sylweddol o ddioddefwyr a goroeswyr trais rhywiol a cham-drin domestig, a'u bod yn wynebu nifer o rwystrau wrth gael mynediad at wasanaethau cymorth e.e., diffyg ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael, stereoteipio a stigma, diffyg adnoddau ariannol. Drwy gasglu ac asesu'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r canllawiau statudol ar gyfer diogelu pobl hŷn, bydd yr ymchwil yn rhoi darlun clir o'r rolau diogelu, gofal a chymorth a'r llwybrau atgyfeirio ar draws gwasanaethau yng Nghymru.

*Canlyniadau disgwyliedig y prosiect:*

Prif ganlyniad y prosiect yw adolygiad llenyddiaeth o'r rolau a chyfrifoldebau diogelu, gofal a chymorth gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl hŷn, gan gynnwys yng nghyd-destun VAWDASV. Gall y prosiect hefyd gynnwys mapio llwybrau cyfredol atgyfeirio gwasanaethau sydd wedi'u bwriadu i gefnogi pobl hŷn sydd naill ai mewn perygl o gamdriniaeth neu sydd wedi profi camdriniaeth. Bydd hyn yn seiliedig ar ymchwil ddesg yn bennaf (adolygiadau o ddeddfwriaeth a dogfennau ymchwil a polisi cyhoeddedig, yn ogystal â setiau data presennol) ond gall gynnwys cyfweliadau â swyddogion Llywodraeth Cymru neu gynrychiolwyr o amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus (e.e., iechyd a gwasanaethau cymdeithasol). Rydym yn rhagweld y bydd yr ymchwil hon yn:

1. Darparu crynodeb diweddar o'r dyletswyddau diogelu a gofal statudol ar gyfer gweithwyr proffesiynol ar draws gwasanaethau
2. Archwilio sut mae unrhyw rolau a chyfrifoldebau statudol yn croestorri â VAWDASV yng nghyd-destun anghenion pobl hŷn
3. Mapio'r llwybrau a'r mecanweithiau atgyfeirio i bobl hŷn gael mynediad at gymorth a gwasanaethau ar draws gwahanol sectorau

Byddai'r gwaith hwn yn arwain at adroddiad llawn s'yn syntheseiddio'r dystiolaeth, gan gynnwys crynodeb gweithredol a chyflwyniad o'r canfyddiadau i swyddogion polisi a dadansoddi yn Llywodraeth Cymru. Gall y gwaith hefyd gynnwys datblygu allbynnau gweledol yn seiliedig ar ymarfer mapio llwybrau atgyfeirio.

## Cyfrifoldebau a gofynion interniaeth

Bydd yr interniaeth yn para am gyfnod o hyd at dri mis. Disgwylir i fyfyrwyr llawn amser gamu'n ôl o'u PhD i ganolbwyntio ar yr interniaeth am ei gyfnod, yn unol â chanllawiau ESRC (Canllaw Cyllido Ôl-raddedig ESRC tud. 27). Anogir ceisiadau gan fyfyrwyr rhan-amser.

Rhagwelir y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio mewn ffordd hybrid rhwng adref ac un o swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn ystod ei interniaeth. Gall hyn newid yn ddibynnol ar bolisi Llywodraeth Cymru. Bydd unrhyw newidiadau i drefniadau gweithio yn cael eu trafod gydag ymgeiswyr llwyddiannus.

Bydd yr interniaeth yn para am gyfnod o 3 mis amser llawn neu'r hyn sy'n cyfateb yn rhan-amser. Ar gyfer myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru yn rhan-amser, mae'r interniaeth hon ar gael yn rhan-amser dros gyfnod hwy (dim llai na thri diwrnod yr wythnos waith), i'w negodi rhwng Llywodraeth Cymru a'r ymgeisydd llwyddiannus. Os hoffech gael eich ystyried ar sail ran-amser, nodwch eich dewis oriau gwaith ar y ffurflen gais.

**Manyleb myfyriwr**

Rhaid i'r myfyriwr fod:

- y gallu i chwilio, cyfuno a gwerthuso llenyddiaeth ansoddol yn feirniadol;
- ymwybyddiaeth o weithdrefnau deddfwriaethol a'r gallu i ddeall dogfennaeth gyfreithiol
- sgiliau cyfweld ansoddol
- y gallu i gydweithio ag eraill i ddiwallu'r anghenion ymchwil a datblygu'r dyluniad ymchwil
- sgiliau ysgrifennu a chyflwyno adroddiadau;
- sgiliau dylunio a rheoli prosiectau;

## Dyddiad dechrau'r interniaeth

Ionawr / Chwefror 2026 (union ddyddiad i'w drafod). Efallai y bydd rhywfaint o hyblygrwydd yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

## Cyllid a chostau

Gellir talu costau teithio rhesymol i fyfyrwyr nad ydynt fel arfer wedi'u lleoli yng Nghaerdydd. Dylai ceisiadau fod yn gyson â chanllawiau Ysgol Graddedigion Gwyddorau (YGGCC). Ni fydd ceisiadau gan fyfyrwyr sydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer teithio a llety yn cael eu trin yn llai ffafriol. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am hyn, cysylltwch â Katy Marrin Katy.Marrin001@gov.wales a Jo Coates Joanne.Coates@gov.wales.

## Diogelwch

Mae gweithdrefnau fetio Llywodraeth Cymru (sy'n berthnasol i staff dros dro yn ogystal â staff parhaol) yn cynnwys cwblhau ffurflen gais Safon Ddiogelwch Safonol ar gyfer Personél (BPSS) a Holiadur Diogelwch ar gyfer y broses fetio.

Mae'r broses hon yn gofyn i'r ymgeisydd gyflwyno tri math gwreiddiol o ddogfen adnabod. Dylai un o'r rhain fod yn ddogfen â llun (pasbort, trwydded yrru newydd), dylai un ddogfen ddangos y cyfeiriad presennol, a gallai'r trydydd math fod yn fil cyfleustodau, tystysgrif geni, P45 neu P60.

## Gofynion cenedligrwydd

Mae cymhwysedd ar gyfer interniaeth ar y cynllun hwn yn dibynnu ar fodloni rheolau Cenedligrwydd y Gwasanaeth Sifil. Gwiriwch eich bod yn gymwys cyn gwneud cais. Ni fydd y rhai nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn gallu manteisio ar gyfle lleoliad.

## Ymholiadau

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â'r swydd neu'r broses ymgeisio at Nerys Owens (nerys.owens@gov.cymru)

## Hysbysiad preifatrwydd

https://www.llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-llywodraeth-cymru